Cenn@d

HYDREF 18 2023 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD A SEREN CYMRU* RHIF 138

# Ein hymateb i argyfwng diweddaraf y Dwyrain Canol: Galwad i weddi a chyfle i weithredu

**Fore Sadwrn, Hydref 7fed, lansiodd Hamas ymosodiadau roced ar Israel gan arwain at y cynnydd mwyaf mewn trais a welwyd yn yr ardal. Bu farw miloedd o Israeliaid ac anafwyd llawer mwy. Dyma oedd yr ymosodiad mwyaf marwol ar Israel yn y degawdau diwethaf. Aled Davies sy'n crynhoi ein hymateb ni fel Cristnogion, gyda'r alwad i weddïo a gweithredu.**

Yn dilyn yr ymosodiad a ddaeth yn ddisymwth, fore Sadwrn, 7 Hydref, llofruddiwyd pobl gyffredin yn Israel yn ddidrugaredd, gan gynnwys plant a gwragedd, gan yr ymosodwyr. Fe'n syfrdanwyd gan y lluniau erchyll a thorcalonnus o drais a llofruddio cwbl digynsail. Yn yr un modd yn Gaza, lladdwyd miloedd ac anafwyd llawer, yn blant ac yn bobl o bob oed. Mae cyrchoedd awyr yno hefyd wedi dinistrio cartrefi, ysgolion, meddygfeydd a chyfleusterau cyfathrebu. Mae ysbytai, oedd dan bwysau mawr yn barod, wedi eu llethu gan gleifion ac mae cannoedd o filoedd o bobl wedi gorfod ffoi. Bydd hyn yn ei dro yn arwain at argyfwng dyngarol pellach, gyda'r angen am loches, bwyd a gofal meddygol bron yn amhosibl i'w gael. Wrth i *Cenn@d* fynd i'w wely roedd 3,500 o fywydau pobl diniwed wedi eu colli eisoes, a'r straeon yn dal i lenwi penawdau'r cyfryngau.

A ninnau'n wedi'n syfrdanu gan y galar, y dioddef a'r dychryn sydd wedi meddiannu'r Dwyrain Canol, mae'n siŵr bod ein meddyliau ni i gyd yn troi at y bobl ddiniwed sydd wedi cael eu dal ynghanol y fath gyflafan annynol a brawychus. I'r rhai hynny ohonom sy'n awyddus i gynnig cymorth o ryw fath mae cyfle i weddïo dros yr argyfwng, yn ogystal â chyfrannu at apeliadau gan fudiadau fel Cymorth Cristnogol ac Embrace the Middle East. Mae modd hefyd arwyddo deiseb yn galw ar lywodraeth y Deyrnas Unedig i wneud y cyfan a fedr i sicrhau heddwch.



Llun:cy (Wafa) in contract with APAimages, CC BY-SA 3.0, via Wikimedia Commons



Llun: Palestinian News & Information Agency (Wafa) in contract with APAimages, CC BY-SA 3.0

**Dyma ddetholiad o weddïau y gallwn ni eu defnyddio, boed ar y Sul neu'n ddyddiol ar ein haelwydydd:**

### Gweddi mewn ymateb i'r argyfwng

Dduw goleuni ac iachawdwriaeth, Ti yw ein noddfa a'n nerth,
Gweddïwn dros bobl Israel a Phalestina yng nghanol y trais cynyddol yn y dyddiau heriol a gofidus hyn.
Gweddïwn dros y rhai sy'n cael eu lladd a'u hanafu gan rocedi o Gaza yn ne Israel. Bydded i'th allu di eu harwain at y dyfroedd tawel a'th wialen a'th ffon eu cysuro. Gweddïwn dros y rhai sy'n galaru. Bydded iddynt wybod a phrofi o'th gymorth hollbresennol. Wrth iddynt gerdded trwy ddyffryn tywyll du, gweddïwn am dy amddiffynfa gadarn a'th gysur ar y daith.
Gweddïwn am ddiogelwch ar gyfer y rhai sydd wedi cael eu cymryd yn wystlon gan Hamas.
Wrth gerdded trwy'r dyffryn heriol hwn, na fydded iddynt ofni drwg.
Yn ogystal gweddïwn dros bobl gyffredin Gaza. Bydded iddynt wybod mai ohonot Ti, greawdwr nef a daear, y daw eu cymorth. Gweddïwn dros bawb sydd wedi colli anwyliaid ac wedi colli eu heiddo a'u cartrefi.
Cofiwn yn arbennig am bawb sydd wedi cael eu lladd a'u clwyfo yn Gaza heddiw – bydded i Ti gysuro ac iacháu'r rhai sydd mewn poen a'r rhai sydd wedi colli anwyliaid.
Gweddïwn dros y ffoaduriaid sy'n ceisio gadael a darganfod lle diogel – cadw nhw'n ddiogel ar y daith, a'u harwain i fan lle cânt groeso a noddfa dros dro.
A gweddïwn dros y rhai sydd mewn sefyllfa o awdurdod a grym yn Gaza ac Israel. Gweddïwn y bydd i Ti eu harwain ar hyd y llwybrau cywir a ffordd cyfiawnder.
Gofynnwn hyn oll mewn undeb â Christ gan ymddiried yn nerth dy Ysbryd Glân. Amen.

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

Ordeinio a Sefydlu Hanesyddol yn y Drenewydd
Tudalen 3

O Gefn Gwlad
'Ymbil ar Hydref'
Tudalen 7

O'r galon
Nid gobaith mo'r gobaith sy'n gweld
Tudalen 8

*Ein hymateb i argyfwng diweddaraf y Dwyrain Canol: Galwad i weddi a chyfle i weithredu*

*(parhad o dudalen 1)*

**Gweddi o Ganolfan Sabeel yn Jerwsalem**

Ein Tad, gweddïwn ein shalom a'n salaam wrth weld y trais a'r dinistr yn Israel a Gaza.
Gweddïwn am dy gyfiawnder a'th dosturi.
Gweddïwn dros y diniwed a'r dieuog ymysg Israeliaid a Phalestiniaid
yn arbennig Gaza wrth i fwy o drais a lladd ddinistrio eu cartrefi
a'u chwalu ar ffo yn ffoaduriaid.
Boed i ni gofio'r hanes hir o ormes sydd wedi greu'r fath ddicter
o genhedlaeth i genhedlaeth.
Fe wyddost, Arglwydd mai dim ond dyfodol cyfiawn i bawb
ddaw â heddwch, gan dorri'r cylch dieflig hwn o drais.
Yn enw Dy fab a'n brawd ni oll, Iesu o Nasareth. Amen.

**Gweddi gan Gymorth Cristnogol**

O Dad nefol, clyw ein gweddïau dros heddwch yn y Dwyrain Canol.
Bydded i bawb yn y rhanbarth gael eu hamddiffyn, a'u cadw yn ddiogel rhag niwed.
Gweddïwn y daw'r argyfwng hwn i ben yn fuan, heb golli rhagor o fywydau.
Dduw Dad, bydded i'r rhai sydd wedi eu hanafu brofi o'th bresenoldeb a'th iachâd.
Bydded i'r bobl mewn grym a dylanwad ddilyn llwybrau cyfiawnder, trugaredd a heddwch.
Gweddïwn am gydnabyddiaeth o urddas a gwerth pob bywyd.
Gofynnwn hyn i gyd yn dy enw di, Amen.

**Bydd nifer ohonom yn holi'n hunain sut y gallwn ni weddïo dros yr hyn sy'n digwydd yn Israel a Gaza ar hyn o bryd? Mae Mones Farah, a gafodd ei fagu yn Nasareth, ac sydd bellach yn Archddiacon gyda'r Eglwys yng Nghymru yn Esgobaeth Tyddewi, yn rhannu ei feddyliau:**

Yr hyn yr ydym yn ei dystio heddiw yn yr elyniaeth rhwng Israel a Hamas yw'r gwaethaf ers i'r gwrthdaro ddechrau ac mae'n ddinistriol. Mae miloedd eisoes wedi marw ac wedi'u hanafu, mae gwystlon yn cael eu dal, cartrefi'n cael eu dinistrio, cymunedau wedi'u gwastatáu.

Wrth inni wylio'n arswydus, rydyn ni am ymateb gyda gweddi ond efallai ein bod yn ansicr am yr hyn y dylem fod yn gweddïo amdano yn y sefyllfa anodd hon. Fel rhywun o'r rhanbarth rwy'n cynnig yr awgrymiadau canlynol a fydd, gobeithio, yn help i'ch arwain.



Llun: Palestinian News & Information Agency (Wafa) in contract with APAimages, CC BY-SA 3.0, via Wikimedia Commons

**Gweddïwch drosoch eich hun**

Pan ddewch i weddi, gweddïwch yn gyntaf drosoch eich hun. Gweddïwch na fydd eich calon yn gwahanu Israel a Phalestina, Palestina ac Israel, fel eich bod chi'n dod i mewn o flaen Duw yn llwyr eisiau i gariad a daioni Duw gael eu rhyddhau yn y sefyllfa.

**Gweddïwch yn erbyn ofn a bai**

Mae'r gwrthdaro hwn wedi bod yn digwydd ers 76 mlynedd. Gweddïwch y bydd pobl yn dechrau gweld ei gilydd fel cyd-ddyn ac na fyddant yn ofni nac yn beio ei gilydd. Gweddïwch yn erbyn ysbryd ofn a bai.

**Gweddïwch dros y teuluoedd**

Gweddïwch dros deuluoedd ac anwyliaid y rhai sydd wedi'u cymryd yn wystlon a'r rhai sydd wedi colli eu bywydau neu wedi'u hanafu, ar y ddwy ochr. Gweddïwch dros y rhai sy'n bryderus ac yn galaru.

**Gweddïwch am ddiwedd ar y gwrthdaro**

Gweddïwch am ddiwedd ar unwaith i'r elyniaeth. Gweddïwch ar i bobl roi'r gorau i ddefnyddio geiriau casineb, sy'n tanseilio ei gilydd ac yn gwneud i'r ochr arall ymddangos yn llai na dynol. Nid yw diwedd gelyniaeth yn ymwneud ag atal tanio bwledi, rocedi ac ymosodiad y fyddin yn unig – mae'n dechrau gyda'r galon yn gyntaf ac yna'r meddwl a'r ffordd yr ydym yn siarad am ein gilydd.

**Gweddïwch dros yr heddychwyr**

Gweddïwch dros bawb sy'n gweithio dros heddwch, ar y ddwy ochr. Gweddïwch y byddan nhw'n cymryd eu galwad i fod yn dangnefeddwyr o ddifrif. O fewn hynny, gweddïwch dros yr eglwysi lleol, Iddewig ac Arabaidd. Gweddïwch dros Fwslimiaid ffyddlon a thros arweinwyr Iddewig a fydd yn siarad am heddwch a chyfiawnder. Mae angen i'r gwrthdaro hwn ddod i ben ac mae angen i dangnefeddwyr ddechrau cael y sgwrs honno.

**Gweddïwch dros y rhai sydd dan warchae**

Gweddïwch y bydd y gwarchae yn Gaza yn fyr, yn enwedig bwyd, dŵr, amwynderau hanfodol a chyfleustodau. Mae Gaza wedi dioddef cyhyd ac ni all gynnal dioddefaint pellach. Gweddïwch hefyd dros boblogaethau Israel, yn enwedig o amgylch Gaza, na fyddant yn parhau i fyw mewn ofn, gan aros mewn ardaloedd gwarchodedig o'u hadeiladau a llochesi i fomiau, ond byddant yn gallu symud mewn rhyddid.

**Gweddïwch dros y plant**

Cofiwch bob amser y bobl ifanc, y plant, na allant fynegi beth sy'n digwydd. Gweddïwch dros y rhai sy'n cael eu dal yn wystlon a'r rhai sy'n byw gydag ofn mawr o beledu ar y ddwy ochr.

**Gweddïwch am eglurder**

Mae hwn yn wrthdaro cymhleth ac anodd. Ond gellir delio â'r cymhlethdod os byddwn yn rhoi'r gorau i ddweud ei fod yn gymhleth ac yn dechrau dweud ei fod yn anodd oherwydd pan fyddwn yn dweud 'cymhleth' ni allwn ddelio ag ef. Felly gweddïwch am eglurder ar sut i symud ymlaen ar gyfer y ddwy ochr.

**Yn naturiol bydd Cenn@d yn parhau i gadw golwg ar y sefyllfa, gan ddod â diweddariadau cyson i'ch sylw. Mae'n ddyddiau heriol mewn cymaint o ardaloedd ar hyn o bryd, ac nac anghofiwn chwaith am y dioddefwyr yn Morocco ac Afghanistan yn dilyn y daeargrynfeydd diweddar, a'r dioddefwyr yn Lybia yn sgil y llifogydd a ddaeth i'w rhan. Yr un yw'r angen am ein gweddïau dros y rhyfel a'r colli bywydau sy'n parhau yn Wcráin.**

# Ordeinio a Sefydlu Hanesyddol yn y Drenewydd

Mae'r berthynas rhwng Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd India yn un glòs iawn ac yn un bersonol i nifer fawr ohonom. Mae rhai ohonom wedi cael y cyfle i ymweld â thaleithiau Gogledd-ddwyrain India, ond llawer mwy ohonom wedi cael cyfle i gyfarfod ag ymwelwyr o India sydd wedi dod ar bererindod yn ôl at y 'Fam eglwys' yng Nghymru. Mae ein cysylltiad, ers pedwardegau'r 19eg ganrif a dyddiau'r cenhadon cyntaf o Gymru, wedi ein hysbrydoli a'n cyfoethogi yn ein tystiolaeth yma yng Nghymru, ac yn parhau i wneud hynny. Mae'n berthynas annwyl, ac yn ymrwymiad gweddigar rhwng y naill Eglwys a'r llall.

Roedd cyfarfod ein Cymdeithasfa yn y Dwyrain eleni yn un hanesyddol a gwelodd glymu pellach ar edafedd defnydd y berthynas hon. Fe grëwyd hanes yn y Drenewydd nos Fercher, 4 Hydref, pan ordeiniwyd Rebecca Lalbiaksangi sydd wedi ei magu yn Synod Mizoram o Eglwys Bresbyteraidd India. Rebecca yw'r ferch gyntaf o'r Synod ac o'n chwaer eglwys yn India i gael ei hordeinio'n weinidog i Iesu Grist. Disgynnodd y fraint o'i hordeinio i'n plith fel eglwys yma yng Nghymru i'n Llywydd presennol, y Parch. Aneuirn Owen, ei hun yn fab i genhadon yn Mizoram ac a aned yn y dalaith honno fel Rebecca.

Fe gafodd Rebecca ei sefydlu y pnawn Sadwrn canlynol, 7 Hydref, yng nghapel





Y gymuned Mizo ddaeth i gefnogi achlysur y sefydlu

y Cilgant, y Drenewydd, yn weinidog ar ofalaeth Dwyrain Trefaldwyn. Fel mae'n digwydd, mewn rhan o'r ofalaeth hon y bu'r cenhadwr cyntaf ym Mizoram, y Parch. D. E. Jones o Landderfel, yn gweinidogaethu gyntaf cyn troi ei olygon at y maes cenhadol ym 1897 a chyflawni 30 mlynedd o waith arloesol ynghanol twf aruthrol yr eglwys ifanc ym Mizoram.

Y Parch. Nan Powell-Davies, yr Ysgrifennydd Cyffredinol, a bregethodd yn y cyfarfod sefydlu gan ddwyn i gof thema dathliadau canmlwyddiant yr eglwys ym Mizoram, 'Rhaid cadw'r tân i losgi ar yr allor, nid yw i ddiffodd' (Lefiticus 6:12). Dyma thema pregeth ym 1994 gan y genhades Gwen Rees Roberts, a fu hyd ei dychweliad o Mizoram yn brifathrawes ysgol genethod y Synod yn Aizawl, sef yr ysgol yr aeth Rebecca iddi yn ddiweddarach.

Mae llawer ohonom yn adnabod Rebecca a'i theulu annwyl ers blynyddoedd bellach. Ond i'r rhai ohonoch nad ydych eto'n ei hadnabod, fe ddaeth i Gymru gyntaf yn 2011 gyda'i gŵr, Miara Rabearisoa o Fadagascar. Cyfarfu'r ddau tra oedd hi'n gweithio fel cenhades ym Madagascar ar gynllun drwy CWM, Cyngor y Genhadaeth Fyd-eang. Buont yn cydweithio yn Eglwys Unedig Llanfair, Pen-rhys, yn y Rhondda, dan nawdd CWM am wyth mlynedd, gan gyflawni gwaith clodwiw ar y stad ddifreintiedig honno. Symudodd Rebecca, Miara a'u merched, Hannah a Seren, i Drefaldwyn i rannu swydd fel galluogwyr cenhadol yn Henaduriaeth Mid-Wales and Border yn 2019 a dilyn cwrs diwinyddol yng Ngholeg y Bedyddwyr yng Nghaerdydd. Derbyniwyd Rebecca yn ymgeisydd ar gyfer y weinidogaeth yn 2021.

Ni allwn ond sylwi ar ffyddlondeb yr Arglwydd tuag atom yng Nghymru yn codi ac yn arwain Rebecca a'r teulu atom. Diolchwn am ei ffyddlondeb hithau hefyd yn ymateb i alwad yr Arglwydd arni ac yn cymryd ei lle fel y ferch gyntaf o Eglwys Bresbyteraidd India i gael ei hordeinio. Gweddïwn fendith helaeth yr Arglwydd arnynt fel teulu ac ar eu gwaith a'u gweinidogaeth yn ein plith.

*Gellir gwrando ar sgwrs gyda Rebecca a Miara ar sianel YouTube EBC: https://www.youtube.com/watch?v=hjJrzX0Wyio&ab_channel=EBCPCW*

# Hanner Marathon Caerdydd – "rhedeg heb flino a cherdded ymlaen heb stopio"

Fues i erioed yn rhan o rywbeth lle roedd cymaint o bobl wedi dod at ei gilydd i wneud yr un peth. Dros saith mil ar hugain o bobl wedi penderfynu rhedeg ras dros dair milltir ar ddeg o hyd! Roedden ni fel rhyw neidr fawr liwgar yn ymestyn bron yr holl ffordd o gwmpas dinas Caerdydd: pawb â'r un nod o groesi'r llinell derfyn. Ac roedd o'n bell! Ond fe lwyddodd y miloedd i gyrraedd y nod, derbyn eu medal, eu crys-T a'u banana.

Ac yn sgil y fath ymdrech ac egni, mae llawer o elusennau wedi eu cefnogi. Rydw i'n hynod o ddiolchgar am bob cyfraniad tuag at Apêl Hadau Gobaith Eglwys Bresbyteraidd Cymru i Gymorth Cristnogol (gafodd ryw estyniad bach er mwyn yr hanner marathon). Diolch yn fawr i bawb sydd wedi cyfrannu.

Wrth feddwl yn ôl am y diwrnod, yr adnod sy'n dod i'n meddwl ydy Eseia 40, adnod 31: "bydd y rhai sy'n pwyso ar yr ARGLWYDD yn cael nerth newydd. Byddan nhw'n hedfan i fyny fel eryrod, yn rhedeg heb flino a cherdded ymlaen heb stopio." Oedd, roedd hi'n ras galed, ond erbyn fydd Llun, roeddwn i'n dadflino. Mae ambell un wedi gofyn i mi'n barod ydw i am ei gwneud hi'r flwyddyn nesa'! Efallai wir!

Ond beth am y 'ras' o barhau i geisio codi arian i gefnogi'r rhai sydd mewn angen o bob math? Mae angen nerth a dyfalbarhad i ddal ati i wneud hynny hefyd, ac mae cymaint o angen parhaus yn ein byd. Gweddïwn am nerth newydd gan yr Arglwydd i bwyso arno a phrofi ei nerth yn ein codi fel eryrod, i redeg heb flino a cherdded ymlaen heb stopio er mwyn gwneud gwahaniaeth i fywydau'r rhai sydd yn byw mewn angen.

*Nia W. Williams*





*Bydd tudalen JustGiving Nia yn parhau yn agored am tua 20 diwrnod os byddwch yn dymuno cyfrannu:* https://www.justgiving.com/page/nia-w-williams-1695304064510

# 'O, na fyddet ti'n rhwygo'r nefoedd ac yn dod i lawr!'

## Ffilm am stori Duw ar waith yng Nghymru

Wrth ddarllen llyfrau Eifion Evans ar ddiwygiadau Cymru, roedd dau beth yn sefyll allan i mi. Yn gyntaf, fod Duw wedi gwneud pethau rhyfeddol yng Nghymru yn y gorffennol, felly gall wneud eto. Nid oes angen i bethau ddirywio hyd at farw, fel y maen nhw heddiw. Yn ail, fod pobl yn ystod Diwygiad 1859 yn cyfeirio at bobl o ddechrau'r 19eg ganrif (fel Thomas Charles), ac y byddai pobl adeg Diwygiad 1904 yn cyfeirio at Ddiwygiad 1859. Po fwyaf y darllenwn, y mwyaf a'm trawai sut yr oedd pob cenhedlaeth o'r eglwys yng Nghymru yn cysylltu â'i gilydd rywsut. Roeddwn i wir eisiau darganfod ac adrodd y stori am sut roedd y cyfan yn dod at ei gilydd.

Rhaglen ddogfen yw *Welsh Awakenings*, wedi'i hysgrifennu a'i chyflwyno gan Jonathan Thomas, gŵr sy'n caru hanes yr eglwys ac wedi ddarllen llawer amdano. Mae'r ffilm yn rhoi trosolwg o ddarlun mawr stori Cristnogaeth ac adfywiad yng Nghymru, yn benodol o'r 18fed i'r 20fed ganrif. Mae hefyd yn ceisio egluro pam y daeth Cymru yn genedl Gristnogol a pham y peidiodd â bod yn un, gan archwilio'r ffactorau ysbrydol a diwinyddol, yn ogystal â'r ffactorau allanol ac ymarferol y tu ôl i hynny.




Mae Jonathan yn mynd â ni ar daith ar hyd a lled Cymru, wrth iddo gyflwyno arweinwyr fel Griffith Jones, Daniel Rowland a Christmas Evans, a mawrion weithredoedd Duw o Langeitho i Langefni, o'r Bala i Feddgelert, ac o Dredegar i Rydaman. Mae arbenigwyr yn cael eu cyf-weld i helpu i adrodd y stori, gan gynnwys John Aaron, Kevin Adams, Eryl Davies, Gwyn Davies, E. Wyn James, Geoff Thomas, a fy nhaid ar ochr fy mam, Gwilym Roberts. Mae ochr fy nhad hefyd yn cael ei chynrychioli yn y ffilm: roedd Capel Bethany, Rhydaman, yn un o uchafbwyntiau Diwygiad 1904, a hefyd hi oedd eglwys enedigol fy nhad. Roedd Tad-cu yn flaenor yn y capel.

Mae'r ffilm nid yn unig yn rhoi darlun eang o hanes Cristnogol Cymru, ond hefyd ddarlun eang o'i harddwch naturiol, gydag golygfeydd o'r awyr o bob cwr o Gymru. Yn wir, mae fel llythyr caru i'm gwlad.

Gallwch brynu *Welsh Awakenings* nawr o www.pughproductions.com, naill ai fel set DVD 3-disg, neu drwy ffrydio digidol ar Vimeo. Yn ogystal â'r rhaglen ddogfen 2 awr, byddwch hefyd yn cael cyfweliadau bonws, canu emynau o Rydaman, a blogiau fideo tu ôl i'r llenni gyda Jonathan a fi. Tu mewn i'r set DVD mae yna hefyd daflen â rhestr ddarllen o 20 llyfr i'ch galluogi i dreiddio'n ddyfnach i hanes eglwysig Cymru.

Wrth gwrs, mae hanes Cristnogol Gymru hefyd yn hanes yr enwadau Cymreig a welodd dwf aruthrol o'r 18fed ganrif ymlaen. Er bod hanes yr 20fed ganrif a'r 21ain ganrif wedi bod yn un o ddirywiad (hyd yn hyn), fy ngobaith yw y byddwn ni i gyd yn cael ein cynhyrfu i weiddi gydag Eseia, "O, na fyddet ti'n rhwygo'r nefoedd ac yn dod i lawr!"

*Dan Pugh*
*Cyfarwyddwr a Chynhyrchydd y gyfres Welsh Awakenings*

ADFERIAD RECOVERY · cynnal · Enfys · 'STAFELL FYW CAERDYDD – YN AGOR Y DRWS I FYWYD NEWYDD · LIVING ROOM CARDIFF – OPENING THE DOOR TO A NEW LIFE

Bydd dydd Sul, 29 Hydref 2023, yn garreg filltir arall yn hanes y frwydr yn erbyn dibyniaeth ar alcohol, cyffuriau ac ymddygiadau niweidiol eraill yng Nghymru.

Unwaith eto eleni, nodwyd Sul fel Sul Adferiad i annog eglwysi nid yn unig i ystyried sefyllfa'r rhai sy'n dioddef o ddibyniaeth o ryw fath, i ddysgu mwy am eu sefyllfa, eu hangen a'r help sydd ar gael trwy ymdrechion mudiadau megis Adferiad, y Stafell Fyw, Cynnal, Enfys, a chyflenwyr eraill. Mae hefyd yn gyfle i weithredu yn ymarferol i estyn cymorth. Gall y cymorth olygu cyfraniad ariannol tuag at y gwaith i rai, tra bydd eraill yn cymryd sylw newydd o'r anogaeth sydd yn Hebreaid 13:3: "Daliwch ati i gofio'r rheiny sy'n y carchar, gan feddwl sut brofiad fyddai hi i fod yn y carchar eich hunain!" Efallai mai carchar llythrennol sydd dan sylw awdur y llythyr at yr Hebreaid, ond ar Sul Adferiad cofiwn fod caethiwed dibyniaeth ar alcohol, cyffuriau, bwyd, rhyw, gamblo a mwy, yn garchar i gymaint o bobl heddiw.

Mae'r gwasanaeth wedi ei baratoi gan y Parch Ganon Ddr Trystan Owain Hughes, a bydd yn cael ei ddarlledu ar BBC Radio Cymru ar fore Sul, 29 Hydref. Mae croeso i chi ddefnyddio'r gwasanaeth hwn yn eich eglwysi, ac mae ar gael i'w lawrlwytho YMA.

> Flynyddoedd yn ôl, ar ddechrau fy ngweinidogaeth, roeddwn i'n arwain oedfa mewn cartref gofal. Darllenais ran o Efengyl Mathew yn hyderus: 'Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl feddwl.' Dyma'r gorchymyn cyntaf a'r pwysicaf. Ac y mae'r ail yn debyg iddo: 'Câr dy gymydog fel ti dy hun.' Yn hollol ddirybudd, gwaeddodd gwraig oedrannus o gefn yr ystafell: 'Dydw i ddim yn caru fy nghymydog.' Wyddwn i ddim beth i'w ddweud. Edrychais ar y gofalwyr, edrychodd y gofalwyr arnaf i. Ond yn ystod y cyfnod byr yna o dawelwch cafodd y wraig gyfle i ychwanegu: 'a gwranda di, ficer, petai ti'n ei nabod hi, fyddet **ti** ddim yn ei charu hi chwaith!'
>
> Roedd y wraig wedi taro ar wirionedd oesol, wrth gwrs – mae'n haws pregethu am gariad a thrugaredd na rhoi'r rhinweddau hyn ar waith yn ein bywyd.

Dyma ddeuddegfed Sul Adferiad Cymru. Ar y Sul hwn, gwahoddwn Gristnogion Cymru i uno mewn gweddi dros y rhai sy'n gaeth, yn ddibynnol; gan ofyn i Dduw ein helpu ni i'w helpu nhw.

Wynford Ellis Owen
Ymgynghorydd Cwnsela Arbenigol
CYNNAL – y gwasanaeth cwnsela i glerigion, gweinidogion yr efengyl, gweithwyr Cristnogol, a'u teuluoedd,
96–8 Neville Street, Glan-yr-afon, Caerdydd CF11 6LS
E-bost: wynfordellisowen@adferiad.org
Ffôn: 07796464045 neu 029 2040 7407

## Dydd Gweddi'r Byd
### Yr Is-bwyllgor Cymraeg (Rhyngenwadol)

Cynhelir

**Cynhadledd**

yn Eglwys Gydenwadol Emaus, Bangor

Dydd Mercher, 15 Tachwedd 2023

10yb tan 1yp

**Thema**

Rwy'n erfyn arnoch i oddef eich gilydd mewn cariad

Paratowyd y Gwasanaeth ar gyfer 2024 gan ferched Palesteina

Cyfle i baratoi ar gyfer Dydd Gweddi 2024

Croeso cynnes i bawb.

## Dydd Gweddi'r Byd
### Yr Is-bwyllgor Cymraeg (Rhyngenwadol)

Cynhelir

**Cynhadledd**

yn festri Capel Heol Awst, Caerfyrddin

Dydd Mercher, 29 Tachwedd 2023

10.30yb tan 12yp

**Thema**

Rwy'n erfyn arnoch i oddef eich gilydd mewn cariad

Paratowyd y Gwasanaeth ar gyfer 2024 gan ferched Palesteina

Cyfle i baratoi ar gyfer Dydd Gweddi 2024


Croeso cynnes i bawb.

# *Gair Duw ar Waith*
## gan Denzil I. John

### Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd

Pennod 4

Ymestyn Allan Darllen Mathew 10:5–15 | 22 Hydref




### Gweddi

Arglwydd Iesu, cofiwn am dy gomisiwn i fynd allan a thystio i ti. Wrth i ni fyfyrio ar dy air, dyro arweiniad newydd i ni wireddu dy gomisiwn a byw'r ffydd. Amen.

### Darlleniad: Mathew 10:5–15

Rhoi comisiwn i'r deuddeg

### Cyflwyniad

Cofnodir gan Mathew, Marc a Luc hanes Iesu yn rhoi comisiwn i'r deuddeg disgybl i fynd at eu cyd-Iddewon er mwyn rhannu'r newyddion bod 'teyrnas nefoedd yn nesáu'. Roedd wedi rhoi awdurdod a grym iddynt i gyflawni'r hyn na allai pobl gyffredin ei wneud, sef iacháu cleifion, cyfodi'r meirw a glanhau'r gwahangleifion. Nododd nad oeddent i dderbyn tâl am eu gwaith, ond byddai hawl ganddynt i dderbyn bwyd. Mathew yn unig sy'n nodi nad oeddent i fynd at y Samariaid na'r cenhedloedd eraill, ond yn benodol at 'ddefaid colledig tŷ Israel', h.y. yr Iddewon.

Yn ddiddorol, nid yw Ioan yn cofnodi'r cyfnod hwn na'r comisiwn a oedd yn sail iddo. Byddai rhai'n dadlau nad amcan Ioan oedd ailadrodd cynnwys yr efengylau eraill, er ei fod wrth bob greddf yn awyddus i'r Eglwys Fore werthfawrogi comisiwn parhaol Iesu.

### Myfyrdod

Bydd cenhadaeth yn rhan o agenda pob eglwys ac enwad, gobeithio – yr ymgais i gyflawni comisiwn Iesu yn ein cyfnod a'n cymuned. Yr her i bob eglwys yw chwilio am fodd o gyrraedd 'defaid colledig Israel'. Bu Nick a Margerie Allan yn byw a gweithio yn Sheffield, a disgwyl am arweiniad Duw ar eu cyfer. Gwelodd Nick fod eglwys y Methodistiaid yn cau yn Chwefror 2015 a gwnaeth yr ymholiadau priodol. O fewn chwe mis roeddent yn trefnu i ailagor yr adeilad, wedi addasu blaen y capel i fod yn gaffi, a daeth 200 o bobl ynghyd i agor Eglwys y Ffynnon – The Well Church. Mae'r enw yn cynnig sawl dehongliad, gan gynnwys y ffynnon o ddŵr bywiol Crist a man lle bydd y Meddyg Da yn ein gwella.

Ceir enghraifft debyg yn y Mwmbwls o eglwys yn addasu adeilad a chynnig caffi a siop grefftau yn y gofod lle bu llawr y capel gynt, ac addasu'r galeri drwy osod llawr yno a threfnu'r gofod i fod yn fan addoli amlbwrpas. Yr un syniad oedd ym meddwl cyfeillion Eglwys y Bedyddwyr yn Mlaenycwm, Rhondda, gan addasu'r brif fynedfa yn lleoliad hamdden megis caffi er mwyn hyrwyddo lle i groesawu pobl.

Bydd gan bob eglwys syniadau am beth sy'n addas i'w lleoliad a'i hadnoddau; yr hyn sy'n bwysig i bawb ei drafod yw cenhadaeth yr eglwys wrth ymestyn allan i'r gymuned yn enw Iesu.

### Gweddi

Arglwydd Iesu, helpa ni i agor y drysau a rhoi modd i sgwrsio â'r byd oddi allan i'n cylchoedd arferol. Ynot ti mae gofod gobaith a llwyfan i gymdeithasu. Helpa ni i wneud hynny'n bosibl. Amen.

### Cwestiynau i'w hystyried

1 Sut fyddech chi'n egluro'r comisiwn i genhadu yn lleol?

2 A yw eglwys sydd wedi colli ei gweledigaeth i genhadu wedi colli'r ysfa i fyw fel eglwys?

3 A fyddech chi'n croesawu rhywrai fel Nick a Margerie Allan i ymuno â'ch eglwys chi?

4 Mae gan bawb ddoniau gwahanol. Beth yw eich dawn chi yng nghenhadaeth eich eglwys?

5 A yw eich eglwys yn fodlon ei byd neu'n anfodlon ei gwedd?


# Lansio Tîm Caplaniaeth Newydd Arloesol yn y Senedd

Dydd Mercher, 4 Hydref, lansiwyd tîm caplaniaeth newydd yn y Senedd i roi cymorth i Aelodau Senedd Cymru, eu staff a gweithwyr seneddol.

Yn dilyn ymddeoliad caplan Aelodau cyntaf y Senedd, yr Uwchgapten David Emery MBE, mae'r Grŵp Trawsbleidiol ar Ffydd yn y Senedd wedi sefydlu Tîm Caplaniaeth newydd y Senedd er mwyn cynnig gwasanaethau bugeiliol i ategu'r gwasanaethau cwnsela a chymorth eraill sydd eisoes ar gael gan y Senedd.

Y trefniadau newydd hyn ar gyfer y Tîm Caplaniaeth yw'r rhai cyntaf o'u bath mewn senedd genedlaethol. Maen nhw'n fwy blaengar, yn gynhwysol o ran rhywedd ac yn cynrychioli ffydd a chredoau pobl sy'n gweithio yn y Senedd, gan gynnwys caplan anghrefyddol yn ogystal â chaplaniaid â chefndir ffydd. Mae pob un o'r caplaniaid ar gael i roi gofal bugeiliol i bobl, beth bynnag eu ffydd neu gred.

Dywedodd Darren Millar AS, Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Ffydd yn y Senedd: "Mae trefniadau caplaniaeth newydd y Senedd yn arloesol ac rwy'n mawr obeithio y bydd seneddau eraill yn dilyn ein hesiampl. Mae'n bwysig parchu'r ystod o ffydd a chredoau anghrefyddol yn ein gweithleoedd ac mae tîm newydd y gaplaniaeth yn adlewyrchu ein hymrwymiad i hynny. Mae cynnig gofal bugeiliol yn ffordd wych o ddangos i bobl yn y gweithle eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi."



Aelodau tîm newydd y gaplaniaeth yw: Mari Vaughan-Owen (Dyneiddwyr), Dr Laura Jones (Mwslim) a'r Parchg Ddr Stephen Adams (Cristnogol). Gwelwn hwy yma yn y Senedd gyda Darren Millar AS, cadeirydd Fforwm Ffydd y Senedd.

Ychwanegodd: "Mae'r Grŵp Trawsbleidiol yn ddiolchgar i'r Llywydd a Chomisiwn y Senedd am hwyluso ein gwaith i ddarparu gwasanaethau caplaniaeth yn y Senedd."

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 22 Hydref, am 7.30yh**

Bydd Nia Roberts yng nghefn gwlad Sir Gâr i ddathlu tymor Diolchgarwch gyda chynulleidfa Capel y Graig, Tre-lech. Cawn gwrdd â rhai o sylfaenwyr a hoelion wyth Aelwyd Hafodwenog, canolfan sydd wedi medi cynhaeaf cyfoethog o ddawnswyr, cantorion a pherfformwyr am dros 40 mlynedd.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 22 Hydref, am 7:30yb a 16:30yp**

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Siân Meinir

**Sul, 22 Hydref, am 12yp**
Oedfa dan ofal Hannah Smethurst, Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd

# O Gefn Gwlad

## ‘Ymbil ar Hydref’

Nid fi biau’r teitl ond W. J. Gruffydd, ac y mae’n un o’m hoff feirdd, neu o leia fe sgrifennodd amryw o gerddi sy’n ffefrynnau gen i. Hynny, efallai, am fod ystod ei fynegiant yn rhyfeddol o eang, ac yn cyfleu cymaint o deimladau gwahanol.

Ganddo fo y mae’r feirniadaeth un llinell fwya deifiol y gwn i amdani mewn barddoniaeth, beirniadaeth o’r Cristnogion hynny – nid y ni, gobeithio – sy’n bopeth ond diffuant yn eu cred a’u hagweddau. Yn y gerdd ‘Gwladys Rhys’ y mae’r llinell. Ie, Gwladys Rhys, y ferch gyflawnodd hunanladdiad ac yr oedd ei thad a’i mam – y fo’n weinidog a hi yn un o selogion mwya brwd crefydd – yn ddall i’r broblem oedd yn bodoli ar eu haelwyd ac o flaen eu trwynau, megis. A dyma’r llinell yng ngeiriau’r ferch, llinell sy’n cyrraedd at yr asgwrn:

Ac ’roedd ’mam
wrth geisio dysgu iaith y nef, heb iaith.

Oes, y mae gan W. J. Gruffydd gerddi a llinellau sy’n chwerw finiog fel yna, a dyma ddyfyniad arall i enghreifftio hynny. Mae ganddo gerdd – ‘1914–1918: yr ieuainc wrth yr hen’ – sy’n llawn dychan a geiriau cas am yr henoed, gan yr ifanc y bu’n rhaid iddyn nhw fynd i ryfel ac aberthu eu bywydau oherwydd gweithredoedd a phenderfyniadau rhai hŷn na nhw. Dyma’r pennill ola:

Mae melltith ar ein gwefus ni
Yn chwerw, ond eto cyfyd gwên
Wrth gofio nad awn byth fel chwi,
Wrth gofio nad awn byth yn hen.

(Cyn mynd ati i feirniadu’r ail linell am ei bod sillaf yn rhy hir, fel y gwnes i cyn aros i feddwl, cofiwch mai gair unsill mewn barddoniaeth yw ‘chwerw’!) Oedd, roedd W. J. Gruffydd yn gallu ei dweud hi, a thrwy hynny o bosib yn adlewyrchu peth o’r chwerwder oedd yn ei fywyd personol o. Ond y mae ganddo hefyd, yn gwbl i’r gwrthwyneb, rai o gerddi hyfryta’r iaith, ac un o’r rheini yw teitl yr erthygl hon ‘Ymbil ar Hydref’.

Cerdd sy’n disgrifio caredigrwydd natur, a thymor yr hydref yn arbennig, at y fam ddaear ydyw, yn cydnabod ei bod fel pob mam brysur arall angen gorffwys er mwyn cael ei hadnewyddu:

Rhoist iddi gwsg ar ôl ei hymdrech flin
A chaeaist safnau ei gofidiau mwy.

Y mae’r gerdd yn llawn ymadroddion am garedigrwydd y tymor: ‘Ti fuost dirion unwaith’; ‘dy lariaidd law’; ‘dy eiriau di a’th hedd;’ ‘niwl caredig tirion’; ‘Frenhines y tosturi’. Tipyn gwahanol i’r geiriau celyd yn ‘Gwladys Rhys’ ac ‘1914–1918’!

Ac ymbil am gael yr un gorffwys a hedd ag a gaiff y fam ddaear gan yr hydref y mae’r bardd. Yn y trydydd person y mae’n eiriol ar ei diwedd, ond ni ellir ond derbyn mai W. J. Gruffydd ei hun yw’r un sy’n ymbil ar y tymor:

Rho iddo, Hydref, hir anghofus hun
A deffro i wanwyn arall a gwell dydd.


Hydref yw tymor y diolchgarwch, a hynny, mae’n debyg, am mai dyma dymor y cynaeafu pan fyddwn yn fwyaf ymwybodol o ddarpariaeth natur ar ein cyfer. Bu Duw natur yn beth penbleth i mi erioed. Pan glywaf gyfeirio at Dduw mewn emynau fel yr un a greodd harddwch byd y blodau a thiriondeb ac anwyldeb ym myd yr aderyn, byddaf rhag fy ngwaetha yn meddwl am lygod mawr, ac am y gath yn dal y cyw bach. Efallai mai gan rai fel W. J. Gruffydd y mae’r ateb, ac nid rhyfedd hynny pan gofiwn mai un yw’r bardd sy’n gweld ymhellach na’r cyffredin, yn teimlo’n ddyfnach na’r cyffredin, yn deall yn gliriach na’r cyffredin. Sydd, falle, yn ddigon o reswm i ni astudio Llyfr y Salmau yn amlach nag a wnawn.

Y mae ‘Ymbil ar Hydref’ rywsut i mi yn cyflwyno Duw’r cread yn ei gyfanrwydd fel yr un a luniodd y cyfan, heb i ni fynd ati i ddarnio’r cyfanfyd hwnnw yn rhannau da a drwg, prydferth a hyll. Ac yn y cylchdro blynyddol rhyfeddol yr ydym trwy ein gweithredoedd anghyfrifol yn ei ddifetha, y cylchdro sy’n rhoi inni wanwyn, haf, hydref a gaeaf, y mae i’r hydref ei rinweddau ei hun. Mae’n ein galluogi ar daith bywyd i orffwys peth, i ymdawelu ac i ystyried ein pwrpas ar y ddaear, i’n paratoi ar gyfer gerwinder y gaeaf, ac yna’r deffro mawr pan ddaw’r gwanwyn.

Beth am inni gynnwys yn ein diolch, felly, yr hydref hwn ein gwerthfawrogiad am diriondeb y tymor, am ‘lariaidd law’, am ‘gyfoeth mwyth cynefin’, ‘dy eiriau di a’th hedd’. Gan obeithio, fel W. J. Gruffydd, gael ‘deffro i wanwyn arall a gwell dydd’.

*Elfyn Pritchard*

# Apêl Gweddi EBC dros Manipur




Ers misoedd bellach, mae ein brodyr a’n chwiorydd yng Nghrist yn Manipur yn cael eu herlid. Yn ôl y mudiad Open Doors mae cannoedd o eglwysi a miloedd o gartrefi Cristnogion wedi eu dinistrio. Erbyn hyn mae degau o filoedd o bobl wedi gorfod ffoi o’u cartrefi, llawer i Mizoram, un o’r taleithiau agosaf, sydd hefyd wedi bod yn croesawu ffoaduriaid yn sgil y rhyfel cartref ym Myanmar.

Mewn ymateb i gais arbennig gan ein chwaer eglwys yn yr India yn ddiweddar, rydym wedi lansio apêl gweddi, a byddwn yn cyfarfod bob bore dydd Gwener am 9.15 dros Zoom. Croeso cynnes i bawb ymuno. Am fanylion pellach, ewch i’n gwefan.

### Gweddi gan ein llywydd, y Parchg Aneurin Owen

**Gweddïwn dros Manipur**

Arglwydd, clyw ein gweddi dros ein brodyr a’n chwiorydd yn Manipur.

Ti, a agoraist lwybrau i genhadon o Gymru gynt i gyhoeddi efengyl cymod yng Nghrist yn Manipur, agor lwybrau gweddi a chymorth yn awr i ni yng Nghymru eto wrth i ni sylweddoli maint y difrod a difrifoldeb y sefyllfa sydd yn Manipur heddiw.

Ti, Arglwydd holl genhedloedd byd, tyrd â’th heddwch i galonnau pawb a fynno drais ac amddiffyn Di y gwan a’r di-rym.

Ti, Arglwydd pob llwyth ac iaith, tyrd â’th gymod i gymunedau lle mae’r llosgi a’r lladd.

Ti, Arglwydd y rhai ysig o galon a’r distadl, disgyn yn nerth dy Ysbryd ar y rhai sydd yn byw mewn ofn, y digartref a’r galarus.

Arglwydd ein Duw, yn unol â’th air, nertha ni ac agor ein calonnau i weddïo dros bawb sydd ar bob ochr yn y gwrthdaro hwn fel y byddant yn cael dy nerth Di i osod eu harfau o’r neilltu a derbyn grym dy faddeuant grasol.

Arglwydd Iesu, gwarchod dy eglwys – y rhai a wnaethpwyd yn agos trwy dy waed. Cynnal ein brodyr a’n chwiorydd yn agos yn dy galon ac yn ein calonnau ni a bydded i’th heddwch di deyrnasu.

Er mwyn dy enw,

Amen.

# O'r galon

## Nid gobaith mo'r gobaith sy'n gweld

'Oherwydd yn y gobaith hwn y cawsom ein hachub. Ond nid gobaith mo'r gobaith sy'n gweld. Pwy sy'n gobeithio am yr hyn y mae'n ei weld? Yr hyn nad ydym yn ei weld yw gwrthrych gobaith, ac felly yr ydym yn dal i aros amdano mewn amynedd.' (Rhufeiniaid 8:24–5)

### Beth yw gobaith?

Dyma ddywed Geiriadur Prifysgol Cymru: 'Yr argyhoeddiad neu'r hyder y gall yr hyn y disgwylir amdano ddigwydd, disgwyliad am beth a ddymunir, disgwyliad, hyder, ymddiried; person neu beth y gobeithir ynddo.'

Eto, mae gobaith wedi mynd yn rhywbeth gwamal iawn yn ein hoes sinicaidd, seciwlar. Yn lle disgwyl gweld cyflawni ein gobeithion, mae'r disgwyliad yn fwy o warchod ein calon rhag y siom anorfod. Yn wir, mae yna derm PR penodol 'expectation management' – 'rheoli disgwyliadau'.

A ydym yn euog o hyn ein hunain?

### Gobaith ar gyrion ein golwg

Bues i am brawf llygad yr wythnos o'r blaen, gyda'r drefn arferol o sbecian ar lythrennau o bellter drwy sbectol sgaffaldiau. Ond y rhan gyntaf oedd 'field test' i brofi a oeddwn yn medru dirnad golau tila iawn ar gyrion fy ngolwg. Erbyn y diwedd dwi ddim yn siŵr a oeddwn yn gwasgu'r botwm mewn ffydd, gobaith ynteu sicrwydd.

Fe all ein ffydd ymddangos fel hyn ar brydiau: ambell beth yn y canol yn eglur a chlir, ond elfennau eraill yn mynd a dod heb i ni roi llawer o sylw iddynt. Dwi'n meddwl bod rhywbeth fel hyn wedi digwydd i'n gobaith ni fel Cristnogion. Tydan ni ddim am edrych arno yn rhy fanwl rhag iddo droi allan i fod yn rhith neu heb sail.

Diwedd hyn yw bod ein profiad a'n dirnadaeth o holl fendithion bod yn ddisgybl i Iesu, yn greadigaeth newydd, yn blentyn i Dduw, yn gyfyng, yn dlawd ac yn llwyd yr olwg.

### Sbienddrych yw gobaith

Gwnaeth fy nhaid a'm nain benderfyniad anodd iawn adeg yr Ail Ryfel Byd, tra oedd fy mam yn faban. Ar y pryd roeddent yn genhadon yn Mizoram, ar gyrion gogledd-ddwyreiniol India, gyda'r Siapaneaid yn nesáu. Mudodd Nain gyda'm mam hyd a lled India i Kashmir, ond arhosodd Taid yn Aizawl. Bob dydd mi fyddai Taid yn syllu drwy ei finociwlars dros y dyffryn i weld a oedd y perygl yn agosáu. Dywedodd wrthyf, bob dydd nad oedd yn eu gweld, fod yna obaith.

Droeon a thro drwy'r Beibl cawn yr anogaeth i edrych i mewn i ddyfnion bethau ein ffydd, a'u trysori yn ein calon, e.e. 'Trysorais dy eiriau yn fy nghalon rhag imi bechu yn dy erbyn … Byddaf yn myfyrio ar dy ofynion di, ac yn cadw dy lwybrau o flaen fy llygaid … Agor fy llygaid imi weld rhyfeddodau dy gyfraith.' (Salm 119:11,15,18)

### Gobaith yn y Beibl

Darllenwch adnodau olaf Eseia 40 yn yr hen gyfieithiad a'r newydd, ac fe welwch gyfoeth y gair Hebraeg a gyfieithir yn obaith. Rhof funud i chi droi atynt. Be welwch yno?

Yr anhawster wrth gyfieithu yn aml yw bod geiriau'n cario sawl ystyr sydd ddim ond yn dod yn eglur drwy'r cyd-destun a'r arfer o'u defnydd. Fel mewn sawl math o lenyddiaeth, yn enwedig yn yr Hen Destament, mae yna brif ystyr i'r gair, ond rydym i fod yn ymwybodol bod holl ystyr gyflawn defnydd y gair yn lliwio'i ddefnydd. Felly mae Duw, drwy Eseia, am i ni wybod bod ein disgwyl yn llawn gobaith, a bod ein gobaith i fod yn ddisgwylgar.


Dyma fantais Cymru'r deheubath sydd yn 'disgwl mlaen' am bethau, a hefyd yn 'disgwl' (edrych) ar bethau.

Syniad tebyg sydd yma i olygfa yn *Lord of the Rings* yn Helm's Deep pryd mae Gandalf yn dweud wrth y fyddin sydd dan warchae i edrych am iddo ddychwelyd ar doriad y trydydd dydd. Fel y dywedodd Iesu wrth ei ddisgyblion, adeg y gorthrwm mawr, am ddyrchafu eu pennau ac edrych am ddyfodiad eu brenin.

Mae gobaith Cristnogol felly'n gyflwr byw, megis y gwylwyr ar y muriau, 'Disgwyliaf wrth yr ARGLWYDD; y mae fy enaid yn disgwyl, a gobeithiaf yn ei air; y mae fy enaid yn disgwyl wrth yr Arglwydd yn fwy nag y mae'r gwylwyr am y bore, yn fwy nag y mae'r gwylwyr am y bore.' (Salm 130:5–6)

*Hywel Rhys Edwards*


Cristnogaeth 21



CYFRES
DEALL Y BEIBL YN WELL

BETH YW'R HEN DESTAMENT?
YR ATHRO ERYL WYNN DAVIES

Nos Lun 30 Hydref, 7:30
Nos Lun 27 Tachwedd, 7:30
Cofrestrwch i gael y ddolen zoom -
cristnogaeth21@gmail.com

Dewch i holi a thrafod gyda'n gilydd



Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru